

Y Nadolig

Darllen: Luc 2:10–11; Mathew 2:3, 12

Fel bydd mis Rhagfyr yn ymddangos ar y calendr bydd ein meddyliau'n troi at ddiwedd y mis – y pumed ar hugain i fod yn fanwl gywir. Dydd Nadolig. Mi fydd yna hen baratoi – ysgrifennu'r cardiau a'u postio cyn rhyw ddyddiad arbennig. Cael digon o fwydydd a diodydd i'r tŷ rhag ofn y bydd yr archfarchnadoedd yn cau am byth. Y teganau wedyn, mae'n rhaid cael y rheiny'n barod er mwyn bod o ryw gymorth i Siôn Corn. Yr addurniadau, y tu mewn a'r tu allan erbyn hyn. A dyna ni'n weddol barod ar gyfer yr ŵyl. Wel, mor barod ac y medrwn ni fod. A chofio wrth gwrs ddymuno 'Nadolig Llawen' i bawb.

Ar ôl i brysurdeb mawr y paratoi fynd heibio, bydd cyfle i ymlacio ryw gymaint ar y diwrnod mawr ei hun. Bwyta, gwag-symera, gwyllo ffilm a diogi cyffredinol. A'r cwestiwn ar ôl i'r Nadolig fynd heibio fydd, 'Sut Nadolig gawsoch chi?' A'r ateb yn ddi-feth, 'Distaw, tawel, hepiant a chysgu a gormod i'w fwyta'. Dim llawer o gyffro, dim llawer o 'ddigwydd'. Ewch yn ôl yn eich dychymyg i'r Nadolig cyntaf. Pa mor ddistaw fu'r diwrnod hwnnw tybed? 'Dawel nos, dwyfol nos', meddai'r hen garol. Ond ai felly roedd hi?

Dowch i ni ofyn y cwestiwn i gymeriadau'r Nadolig cyntaf hwnnw. Sut ddiwrnod oedd hi i'r bugeiliaid ar fryniau Bethlehem? Styrkans mawr â hwythau'n cael rhyw nap bach ar y llethrau. Goleuni llachar a chôr o angylion yn arwain y gân. A'r goleuni a'r canu rhyfeddol hwn yn eu gorfodi i fynd o ddiogelwch eu cynefin i weld beth oedd yn digwydd. A darganfod yr olygfa ryfeddaf erioed: babi bach mewn preseb.

Yna, beth am y seryddion oedd wedi teithio o bellafodd Mesopotamia gan ddilyn y seren? Dechrau digon tawel gafwyd i'w Nadolig hwythau nes iddyn nhw gyrraedd pen eu taith yn llety'r anifail. Ond ar ôl darganfod y mab bychan, dychwelyd i'w gwlad 'ar hyd ffordd arall' fu eu hanes. Y

dechrau tawel, distaw yn troi'n orfoledd a chyffro. Mae'r 'mab bychan' a welson nhw yn eu gorfodi i droedio llwybr arall, gwahanol. Y ffordd arall ydi hi wedyn.

Beth am Herod Frenin? Digon distaw fu hi ar hwn ar y dechrau, ond pan glywodd fod babi wedi ei eni dyma'i gynddaredd yn berwi drosodd. Nid cynhyrfu ei hun yn unig a wnaeth hwn ond yr ardal i gyd. Strancio fu ei hanes, holi'r seryddion, yr ysgrifenyddion a'r gwybodusion ym mhle roedd y babi bach wedi'i eni. Na, chafodd hwn ddim Nadolig tawel, digynnwrf. Cynddeiriogwyd hwn ac aeth ei orffwylledd yn drech nag o, nes peri iddo orchymyn i'w filwyr ladd pob plentyn gwryw dan ddwyflwydd oed.

Sut Nadolig gawsoch chi eleni? Os cawsoch chi'r profiad o weld y Mab bychan yna rydych wedi dod wyneb yn wyneb â chwyldro, a bydd rhaid i chithau ddilyn y seryddion a throedio 'ar hyd ffordd arall'.

Myfyrdod pellach:

Sut allwn ni brofi cyffro'r Nadolig?

Sut mae'r babi bach yn y preseb yn cyfathrebu â ni heddiw?